BBC Audience Council for Wales
Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC

CYFRINACHOL **WEDI EU CADARNHAU**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YNG NGHANOLFAN DDARLLEDU'R BBC, LLANDAF, CAERDYDD, DDYDD GWENER, 5 RHAGFYR 2008

Yn bresennol:

Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa

Janet Lewis Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol dros Gymru)
Andy Carter
Dafydd Whittall
Alex McMillan
Nicola Branson
Carl Cooper
Arun Midha
Roy Grant

Staff BBC Cymru Wales:

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru Wales
Mark O'Callaghan, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes
Clare Hudson, Pennaeth Rhaglenni (Saesneg)
Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni (Cymraeg) a Chyfryngau Newydd
Cath Allen, Pennaeth Datblygu Darlledu
Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd,
Eleri Wyn Williams, Pennaeth Addysg a Dysgu (ar gyfer eitem 92)

Staff Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC:

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru
Siôn Brynach, Ymgynghorydd Atebolrwydd Cymru
Clair Baguley, Cynorthwy-ydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru

Staff Uned Ymddiriedolaeth y BBC:

Michael Fadda
Lucy Tristram

85. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Jane James
Teresa Rees
Dennis Gethin
Sangeet Bhullar

86. BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (YN BREIFAT)

Cofnodwyd gair o ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y digwyddiadau estyn allan i gyd-fynd â'r adolygiad o wasanaethau ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys y digwyddiad diweddaraf a gynhaliwyd ym Mangor ar 1 Rhagfyr.

Dywedodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol ei bod yn ddiolchgar i bawb a fu'n ymwneud â chyfarfod yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru ym mis Tachwedd. Bryd hynny, roedd wedi mynychu cyfarfod adeiladol gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr S4C ynghyd â Chadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC.

Dywedodd wrth y Cyngor ei bod wedi cyfarfod Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddiwylliant yn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod y mis blaenorol a bod y ddau gyfarfod wedi bod yn rhai adeiladol.

Yn dilyn cyfarfod diwethaf Ymddiriedolaeth y BBC, cafwyd cyhoeddiadau ynglŷn â helynt Ross-Brand, Prawf Gwerth Cyhoeddus Fideo Lleol a'r ffaith bod aelodau o Weithrediaeth y BBC wedi cyhoeddi na fyddent yn derbyn unrhyw fonws a gynigid iddynt eleni.

Wrth gyfeirio at ryddhau deunydd a gynhyrchwyd fel rhan o'r prosiect BBC Jam, dywedodd fod yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno i ryddhau'r deunydd hwn yn Gymraeg, ond bod rhewi gwariant ar *bbc.co.uk* wedi arwain at ddryswch, a hynny yn ei dro wedi golygu na chafodd y gwaith hwn ei wneud. Fodd bynnag, roedd y gamddealltwriaeth hon wedi'i datrys erbyn hyn a dylai'r gwaith o ryddhau'r deunydd addysgol hwn fynd rhagddo yn awr.

Gwelwyd datblygiadau hefyd yn ymwneud â darlledu clywedol digidol (DAB) ac roedd y Llywodraeth, Ofcom, y cwmnïau radio annibynnol a'r BBC yn edrych o ddifrif yn awr ar y problemau a oedd yn gysylltiedig â'r cyfrwng. O ganlyniad, er bod rhywfaint o obaith y gwelid cynnydd, nid yw dyfodol y cyfrwng yn glir o gwbl. Dywedodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol fod yr anawsterau penodol a oedd yn gysylltiedig â DAB yng Nghymru'n hysbys, a bod Cyngor Cynulleidfa Cymru wedi chwarae rhan allweddol er mwyn tynnu sylw at y problemau yng Nghymru. Gofynnodd y Cyngor a fyddai modd gwahodd y Rheolwr Dosbarthu i gyfarfod yn y dyfodol, pan fyddai dewisiadau posibl yn ymwneud â dyfodol DAB yn dod i'r amlwg, a gofyn i Reolwr Cymru gyflwyno adroddiad llafar yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr ynglŷn â'i dealltwriaeth hi o'r ffodd y mae pethau'n datblygu yn y cyd-destun hwn. Penderfynodd y Cyngor hefyd nodi DAB fel mater o flaenoriaeth i'r Ymddiriedolaeth yn dilyn y cyfarfod hwn.

GWEITHREDU: Rheolwr Cymru a Phennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru

Cyfeiriodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol at yr anawsterau ariannol a masnachol a oedd wedi dod i ran Woolworths yn ddiweddar ac at gysylltiad BBC Worldwide â'r fenter ar y cyd – 2|entertain.

Cyfeiriwyd hefyd at adroddiad a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Grŵp Cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai copïau o'r adroddiad llawn yn cael eu dosbarthu i'r aelodau cyn bo hir. Gofynnodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol a fyddai modd rhoi'r mater hwn ar yr agenda ar gyfer cyfarfod Cyngor Cynulleidfa Cymru ym mis Ionawr fel bod modd ei drafod yn llawnach.

Bydd ymateb ar y cyd gan y BBC / Ymddiriedolaeth y BBC i Gomisiwn Darlledu'r Alban hefyd yn cael ei ddosbarthu cyn bo hir.

Dywedodd Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru y byddai'n hysbysu'r Cyngor yn ystod yr wythnos ddilynol ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer monitro cynnydd yn dilyn yr Adolygiad o Ddidueddrwydd rhaglenni Newyddion Rhwydwaith y DU ar ôl datganoli.

GWEITHREDU: Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru

Hysbyswyd y Cyngor hefyd bod ei safbwyntiau wedi cyfrannu at ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth ar archebu rhaglenni ymlaen llaw ar iPlayer.

Ymunodd y tîm rheoli â'r cyfarfod.

87. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod llawn a chywir o'r cyfarfod hwnnw.

O ran materion yn codi, hysbysodd Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru y Cyngor fod Pennaeth Chwaraeon y BBC wedi cytuno i fynychu cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol ac y byddai'n cyfeirio at ei rôl bresennol fel Pennaeth Chwaraeon a'i rôl yn y dyfodol pan fyddai'n gyfrifol am bob mater yn ymwneud â 2012, gan gynnwys y Gemau Olympaidd a Jiwbilî Aur y Frenhines.

Gofynnodd y Cyngor a fyddai'n bosibl strwythuro cyflwyniadau gan Uwch Reolwyr y BBC yn y dyfodol er mwyn cael cyfeiriad penodol at Ddibenion Cyhoeddus y BBC a sut roeddent yn cael eu cyflawni. Awgrymwyd hefyd y dylid rhoi eitem ar yr agenda yn ystod y cyfarfod cyn eu hymweliadau er mwyn sicrhau ffocws penodol i'r drafodaeth a gynhelid gyda'r uwch-reolwr penodol.

Cyfeiriodd y Cyngor unwaith eto at y posibilrwydd o gael hanner diwrnod i 'gwrdd y tu allan i'r gwaith' a chanolbwyntio o'r newydd, gyda rheolwyr BBC Cymru, ar gyflawni'r Dibenion. Ymatebodd Rheolwr Cymru drwy ddweud ei bod wedi bod yn anodd cael strwythur pendant yn y gorffennol er mwyn pennu sut roedd y Dibenion yn cael eu cyflawni. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn barod i ymwneud â'r Cyngor yn y modd hwn a phenderfynodd y Cyngor y dylai'r mater hwn fod yn eitem ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf.

88. ADRODDIADAU

Yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol

Cyfeiriodd unwaith eto at helynt Ross/Brand, Prawf Gwerth Cyhoeddus Fideo Lleol y BBC a datblygiadau gyda rhyddhau'r deunydd a baratowyd yn flaenorol fel rhan o'r prosiect BBC Jam.

Diolchodd unwaith yn rhagor i reolwyr BBC Cymru Wales am bopeth roeddent wedi'i wneud er mwyn sicrhau llwyddiant eithriadol ymweliad yr Ymddiriedolaeth â Chymru.

Rheolwr Cymru

Diolchodd i'r Ymddiriedolwr Cenedlaethol am ei geiriau caredig ynglŷn ag ymweliad yr Ymddiriedolaeth a diolchodd yn ei thro i'w staff hi am yr holl waith a wnaethpwyd ar gyfer yr ymweliad hwnnw. Cyfeiriodd yn fwyaf penodol at yr arddangosfa a drefnwyd er mwyn tynnu sylw at agweddau ar waith BBC Cymru Wales.

Mynegodd y Cyngor ei siom na chafodd wahoddiad i fynychu'r sesiwn arddangos hwn ac na chafodd gyfle i ymwneud ag Ymddiriedolaeth y BBC yn ystod ei hymweliad.

Dywedodd Rheolwr Cymru fod y digwyddiad *Coal House at War* a drefnwyd fel rhan o ymweliad yr Ymddiriedolaeth hefyd wedi bod yn llwyddiannus a bod sylwadau Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth wedi bod yn bwrpasol. Talodd deyrnged iddo hefyd am ei ymatebion yng nghyfarfod y staff, lle gofynnwyd cwestiynau treiddgar iddo.

Cyfeiriodd hefyd at adroddiad Pwyllgor Cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac at ymateb Is-bwyllgor Darlledu'r Cynulliad Cenedlaethol i ail gam adolygiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus Ofcom, oedd â chasgliadau tebyg ar y cyfan.

Adroddiad y Bwrdd

Gofynnodd y Cyngor i'r Pennaeth Rhaglenni Cymraeg a oedd unrhyw gynlluniau ar y gweill i ganfod ymateb y gynulleidfa i'r newidiadau i amserlen Radio Cymru? Ymatebodd drwy ddweud bod y math hwn o waith ymchwil yn cael ei gynnal yn rheolaidd. Dywedodd hefyd na fyddai'r patrwm sy'n amlygu ei hun yn ffigurau RAJAR i'w weld yn glir am tua blwyddyn. Byddai Golygydd Radio Cymru'n dychwelyd i'w gwaith yn dilyn absenoldeb mamolaeth ddiwedd Mawrth. Cytunwyd y byddai'r mater hwn yn cael ei roi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf Cyngor Cynulleidfa Cymru ym Mai neu Fehefin.

Cyfeiriodd y Pennaeth Rhaglenni Cymraeg hefyd at raglen a baratowyd fel rhan o'r gyfres *O Flaen dy Lygaid*. Roedd y rhaglen hon, sef 'Dyfroedd Dyfnion', yn seiliedig ar thema amgylcheddol werdd a chafodd dderbyniad da. Cyfeiriodd hefyd at arbrawf y noson flaenorol, lle cafwyd darllediad arbennig o *Pawb a'i Farn* ar S4C ochr yn ochr â darllediad o *Taro'r Post* ar Radio Cymru, gyda'r ddwy raglen, ar wahanol adegau yn ystod y nos, yn cael eu darlledu ar y cyd. Er bod hyn yn anodd o safbwynt technegol, bu'r arbrawf yn llwyddiannus iawn.

Cyfeiriodd y Pennaeth Datblygu Darlledu at rai o brif bwyntiau ei hadroddiad, gan gynnwys Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn BBC Cymru a phresenoldeb y tîm digwyddiadau yn y Ffair Aeaf ar faes Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn ddiweddar. Canmolodd y Cyngor gyfraniad BBC Cymru i apêl Plant mewn Angen y BBC a'r rhaglenni Sul y Cofio.

Hysbysodd Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd BBC Cymru Wales y Cyngor ynglŷn â hunaniaeth brand newydd BBC Cymru Wales a fyddai'n cael ei lansio cyn bo hir. Pwrpas hyn oedd cynyddu ymwybyddiaeth o frand cynyrchiadau BBC Cymru Wales, nid yn unig ar S4C, ond hefyd ar rwydweithiau'r BBC. Byddai hunaniaethau gweledol cyson yn bodoli'n awr drwy holl wasanaethau BBC Cymru Wales ar bob llwyfan.

Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Saesneg y byddai 2W yn dod i ben fel gwasanaeth ar wahân yn Ionawr 2009, ac y byddai hynny'n gwneud gwasanaeth BBC2 Wales yn fwy cydlynol.

Roedd BBC THREE wedi cael comisiwn yn ddiweddar gan dîm Rhaglenni Ffeithiol BBC Cymru i gynhyrchu cyfres o'r enw *Clever Stupid*. Dywedodd hefyd ei bod yn falch o gyflwyno copïau o'r llyfr *Hidden Histories* i aelodau o Gyngor Cynulleidfa Cymru a'r Ymddiriedolwr Cenedlaethol. Cynhyrchwyd y llyfr hwn yn dilyn partneriaeth ar gyfer cyfres deledu rhwng Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru a'r BBC/cynhyrchwyr annibynnol Element.

89. CYFLWYNIAD AR BERFFORMIAD RHAGLENNI'R BBC AR S4C YN 2008/09 I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Cyflwynodd y Pennaeth Rhaglenni Cymraeg ei gyflwyniad drwy ddangos enghreifftiau i'r Cyngor o rai o'r rhaglenni a gynhyrchwyd gan y BBC ar gyfer S4C, gan gynnwys rhaglenni plant, dramâu, materion cyfoes, newyddion a chwaraeon.

Yn dilyn hynny amlinellodd y Pennaeth Rhaglenni Cymraeg sut roedd rhaglenni'r BBC i S4C yn helpu i gyflawni dibenion y BBC. Roedd y Newyddion yn chwarae rhan ganolog, ac roedd yr elfen hon yn cael ei hymestyn i fod yn wasanaeth yn hytrach na rhaglen yn unig, drwy ddarparu mwy o fwletinau yn ystod y dydd. Roedd hyn yn cynnwys rhaglenni fel *Ffeil* ar gyfer plant, a oedd yn dangos lefel ac ystod sgiliau'r tîm cynhyrchu. Dywedodd fod Materion Cyfoes hefyd yn ddarpariaeth allweddol gan y BBC i S4C a bod y rhaglen *Taro Naw* wedi gwneud enw da iddi'i hun am ymchwil ac adroddiadau o'r radd flaenaf. Roedd *Mosgito,* y rhaglen gylchgrawn ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau, wedi cael ei darlledu am flwyddyn bellach ac yn ennill cynulleidfa.

Roedd *Pobol y Cwm* yn dal yn rhan bwysig o gyfraniad y BBC i'r Diben o Ysgogi Creadigrwydd a Rhagoriaeth ynghyd â rhaglenni'r BBC o'r Eisteddfod Genedlaethol a oedd mor ganolog i fywyd diwylliannol y genedl.

Roedd rygbi'n bwysig ac roedd y BBC yn darlledu gemau cynghrair Magners i S4C. Roedd *Y Clwb Rygbi* yn un o'r rhaglenni a oedd yn denu'r nifer mwyaf o wylwyr ar S4C. Mynegodd y Cyngor ei siom bod S4C wedi sefydlu partneriaeth gyda darlledwyr eraill er mwyn cael yr hawl i ddangos gemau pêl-droed rhyngwladol a chartref, gan nad oedd yn teimlo y byddai partneriaeth o'r fath o fudd i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

Mynegodd y Cyngor ei werthfawrogiad o gyfraniad y BBC i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith yng Nghymru a nododd hefyd fod cynulleidfaoedd rhaglenni'r BBC yn sylweddol iawn o'u cymharu â chyhoeddiadau Cymraeg. Cododd y Cyngor fater amserlennu ac fe'i hatgoffawyd mai mater i S4C yn unig oedd hyn ac nad oedd gan y BBC lawer o ddylanwad ar y mater hwn.

Er bod BBC Cymru Wales yn darparu llai nag 20% o holl gynnyrch S4C, roedd yn darparu dros 40% o gyfanswm oriau gwylio S4C. Fodd bynnag, un o'r prif bryderon a fynegwyd gan Ymddiriedolaeth y BBC o hyd oedd diffyg cydnabyddiaeth gan gynulleidfaoedd o gyfraniad y BBC i'r sianel. Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni

Cymraeg fod Ymddiriedolaeth y BBC wedi gofyn am y wybodaeth ganlynol gan S4C er mwyn gwneud asesiad priodol o berfformiad rhaglenni'r BBC ar S4C yn eu cyd-destun:

- cyfartaledd Mynegai Gwerthfawrogiad yn ôl *genre*
- cyfartaledd cost fesul awr gwylio yn ôl *genre* a chyfartaledd cost fesul awr gwylio ar gyfer cynnyrch darparwyr ar wahân i'r BBC
- unrhyw wybodaeth ansoddol yn ymwneud â chynnwys y sianel neu gymeradwyaeth.

90. YMATEB CYNGOR CYNULLEIDFA CYMRU I YMGYNGHORIAD YR YMDDIRIEDOLAETH AR GASGLIADAU AMODOL PRAWF GWERTH CYHOEDDUS FIDEO LLEOL Y BBC

Nododd y Cyngor fod hon yn sefyllfa lle'r oedd gwahaniaeth mawr rhwng barn Cyngor Cynulleidfa Cymru a barn yr Ymddiriedolaeth. Roedd teimlad cryf nad oedd amgylchiadau penodol Cymru wedi cael eu cydnabod yng nghynigion y BBC, yn Asesiad Ofcom o'r Effaith ar y Farchnad nac yng nghasgliadau amodol Ymddiriedolaeth y BBC, ac y gallai penderfyniad yr Ymddiriedolaeth i wrthod y cynigion danseilio gallu'r BBC i gyflawni'r Diben o Gynnal Dinasyddiaeth a Chymdeithas Sifil yng Nghymru. Dywedodd Rheolwr Cymru nad oedd awgrym yr Ymddiriedolaeth y dylid cyflwyno mwy o eithriadau lleol ar y teledu yn bosibl yng Nghymru oherwydd anawsterau topograffig a thechnegol a fyddai'n gwneud y gwaith yn rhy gostus.

Cytunodd y Cyngor y dylai gyflwyno'i ymateb i'r Ymddiriedolaeth ac i dîm rheoli'r BBC a oedd ar hyn o bryd yn ystyried cynigion eraill i'w cyflwyno'n ôl i'r Ymddiriedolaeth – o bosibl gyda'r bwriad o gyflwyno gwasanaeth fideo lleol mwy cyfyngedig yng Nghymru. Gofynnodd y Cyngor hefyd a fyddai'n bosibl i'r Cynghorau Cynulleidfa gysylltu ar y cyd â'r rheolwyr yngl□n â'r cynigion amgen er mwyn rhoi sylw i'r diffyg hwn o ran Dibenion, a byddai hyn yn cael ei ystyried.

GWEITHREDU: Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru

Cytunwyd y byddai ymateb drafft yn cael ei gylchredeg cyn bo hir gyda'r safbwyntiau a fynegwyd gan aelodau'r Cyngor wedi'u hychwanegu. Gofynnwyd am ymateb buan i'r ymateb drafft fel bod modd ei anfon i'r Ymddiriedolaeth cyn gynted ag y bo modd.

91. YMATEB CYNGOR CYNULLEIDFA CYMRU I YMGYNGHORIAD YR YMDDIRIEDOLAETH AR YR ADOLYGIAD O WASANAETHAU AR GYFER CYNULLEIDFAOEDD IAU

Nododd y Cyngor nad oedd llawer o deyrngarwch i frand y BBC ymhlith rhai pobl ifanc, ond bod yr iPlayer yn ffordd bwysig o gael mynediad i gynnwys y BBC, yn enwedig ymhlith pobl ifanc yn eu harddegau.

Roedd gwerthfawrogiad amlwg o'r deunydd a gynhyrchwyd yng Nghymru ond nid oedd 1XTRA ar radar neb.

Dywedodd rhai aelodau o'r Cyngor eu bod wedi sylwi ar werthfawrogiad pendant o raglenni Natur y BBC.

Roedd adnabyddiaeth gref o'r brand a lefelau uchel o ymddiriedaeth a gwerthfawrogiad o gynnwys rhaglenni'r BBC. Roedd y BBC yn cael ei weld fel ffynhonnell bwysig er mwyn cael gwybodaeth i gynorthwyo gyda gwaith academaidd.

Er hynny, roedd cryn amheuaeth o hyd i ba raddau yr oedd y Dibenion yn cael eu cadarnhau.

Dylai natur anodd yr ymgynghoriad – a'r ystod oedran eang a nodwyd – gael eu hadlewyrchu yn ymateb y Cyngor. Byddai'r ymateb drafft cyntaf, yn seiliedig ar drafodaeth y Cyngor, yn cael ei gylchredeg cyn bo hir a gwahoddid awgrymiadau ar gyfer newidiadau cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r drafft hwnnw gael ei gylchredeg.

92. CYFLWYNIAD AR WAITH ADRAN ADDYSG A DYSGU BBC Cymru

Dywedodd Pennaeth Addysg a Dysg BBC Cymru fod ffocws gwaith yr Adran wedi newid yn sylweddol yn ystod y deunaw mis blaenorol. Roedd yr Adran yn ymwneud â darpariaeth addysg a dysgu i blant a phobl ifanc, ond yn canolbwyntio bellach ar ddarparu deunydd o ansawdd da ar lwyfannau amrywiol. Cyfeiriodd at bedwar prosiect er mwyn dangos gwaith yr Adran.

Un o'r prosiectau sy'n cael ei gynhyrchu ar hyn o bryd yw'r Prosiect *Tellytales*, ar gyfer plant 3-6 oed. Datblygodd y syniad gwreiddiol o drafodaethau a gynhaliwyd yng Nghymru, ond erbyn hyn mae'n gomisiwn ar y cyd rhwng Cymru a'r Rhwydwaith yn y Gymraeg a'r Saesneg. Craidd y prosiect oedd cyflwyno storïau, ac fe'i disgrifiwyd fel llyfr 'sbonc' ar gyfer y teledu. Fel rhan o'r prosiect bu tros 500 o blant yn gweithio gydag artist proffesiynol a ymwelodd ag ysgolion ledled Cymru. Mae'r rhaglenni'n cyfuno actorion (gan gynnwys plant) a chefndiroedd animeiddiedig a baratowyd gan y plant mewn ysgolion. Mae'r storïau'n seiliedig ar chwedlau o wahanol rannau o'r byd.

Mae *Mosgito* wedi'i anelu at blant hŷn (12-15 oed) a dathlodd ei ben-blwydd cyntaf yn ddiweddar. Roedd yn dal yn brosiect uchelgeisiol ac nid oedd yn osgoi materion soffistigedig, gan gynnwys yr etholiadau am Arlywyddiaeth UDA. Roedd yn rhaglen fyw, a chai ei darlledu ddwywaith yr wythnos gydag elfen ryngweithiol drwy'r 'gwe-gang' a oedd wedi'u lleoli mewn gwahanol rannau o Gymru ac a oedd yn cyfrannu i'r rhaglen drwy gamerâu gwe a hefyd yn cyfrannu i wefan y rhaglen.

Prosiect arall a oedd yn rhoi sylw i'r cwricwlwm ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed ac a oedd yn ymwneud â gwleidyddiaeth ar lefel leol, cenedlaethol, y DU ac Ewrop oedd *Youth Politics*. Un o'r anawsterau a nodwyd gan athrawon a myfyrwyr oedd bod llawer o'r rhaglenni gwleidyddiaeth wedi'u paratoi ar gyfer pobl hŷn ac nad oeddent wedi'u teilwrio ar gyfer y grŵp oedran hwn. O ganlyniad, fel rhan o'r prosiect hwn, aethpwyd ati i weithio gyda grwpiau o bobl ifanc o ardal Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn edrych ar faterion a oedd yn bwysig iddynt hwy ac ymchwilio i'r materion hynny. Roedd cydweithio hefyd gyda chanolfan Atrium Prifysgol Morgannwg, gyda'r myfyrwyr yno'n paratoi rhai o'r rhannau rhyngweithiol. Elfen arall o'r prosiect oedd cynhadledd ar gyfer athrawon a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â gwasanaeth addysg y Cynulliad Cenedlaethol, er mwyn dangos ffyrdd arloesol o gyflwyno gwybodaeth i'r disgyblion.

Cyfeiriodd y Pennaeth Addysg hefyd at y prosiect *Blast* – rhaglen gelfyddydol ar gyfer pobl ifanc sy'n eu galluogi i ddysgu sgiliau creadigol newydd, mewn meysydd fel ysgrifennu sgriptiau, animeiddio, gwisgoedd, dawnsio a cherddoriaeth.

Roedd prosiect *The Big Welsh Challenge* wedi bod yn llwyddiannus eleni eto. Roedd y cwrs dysgu Cymraeg ar-lein wedi'i gwblhau erbyn hyn a chan fod y cwrs wedi cael ei baratoi ar y cyd â chanolfannau iaith ledled Cymru roedd yn cael cydnabyddiaeth genedlaethol.

Roedd *Bitesize* hefyd yn cael ei gynhyrchu ar gyfer myfyrwyr TGAU ac roedd mwy o bynciau'n cael eu paratoi yn y Gymraeg.

Hysbyswyd y Cyngor hefyd bod llawer iawn o waith wedi cael ei wneud er mwyn cynhyrchu'r pecynnau hynod boblogaidd *Coal House at War* ar gyfer ysgolion. Dywedwyd wrth y Cyngor bod llawer iawn o ysgolion wedi gofyn am ragor o gopïau.

Canmolodd y Cyngor y deunydd llawn dychymyg sy'n cael ei baratoi gan yr Adran a dywedodd fod ysgolion yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth – yn enwedig y ddarpariaeth Gymraeg – na fyddai ar gael oni bai am y BBC.

93. MATERION O FLAENORIAETH AR GYFER YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

Tynnodd y Cyngor sylw at y mater isod fel Mater o Flaenoriaeth i Ymddiriedolaeth y BBC.

- DAB – Mynegodd y Cyngor ei bryder ynglŷn â'r ansicrwydd ynglŷn â DAB, yn enwedig derbyniad gorsafoedd radio cenedlaethol BBC Cymru Wales.

94. CADARNHAU DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffawyd y Cyngor y cynhelid ei gyfarfod nesaf ar 9 Ionawr 2009 yng Nghanolfan Ddarlledu'r BBC, Caerdydd ac y cynhelid cinio preifat ar gyfer y Cyngor gyda'r nos ar 8 Ionawr.

***